

Gwneud porthwr glöynnod byw (1)

Porthwr ti golff

Mae hwn yn borthwr lliwgar er mwyn denu glöynnod byw (ieir bach yr haf neu bili palaod). Mae'n cynnwys dŵr siwgr, sy'n union fel neithdar blodau.

Mae glöynnod byw yn gweld y byd yn wahanol iawn i ni ac yn defnyddio marciau arbennig ar flodau i'w helpu i gael hyd i'r neithdar yn y canol - yn debyg i'r goleuadau glanio ar redfa maes awyr. Dim ond trwy edrych ar flodau o dan oleuadau uwchfioled y gwelwn ni'r marciau hyn.

Dylai'r porthwyr hefyd fod â goleuadau rhedfa arbennig i helpu arwain y glöynnod byw at y dŵr siwgr gan ddefnyddio pennau uwchfioled.

Beth sydd ei angen arnoch

- Pennau uwchfioled (ar gael o siopau celf a chreffft)
- Cerdyn
- Siswrn
- Tiau golff
- Dŵr siwgr
- Pennau lliwio neu baent (peidiwch â gadael y porthwr allan yn y glaw)



Beth i'w wneud

- 1) Tynnwch siâp syml fel blodyn neu löyn byw ar y cerdyn a'i dorri allan. Penderfynwch ymhle i roi'r tiau golff a thorri tyllau bach ar y cerdyn yn y llefydd hynny.
- 2) Nawr addurnwch y porthwr. Arbrofwch â gwahanol liwiau a chynlluniau. Mae glas a melyn yn liwiau da i'w defnyddio, ond ceisiwch osgoi coch oherwydd nid yw glöynnod byw yn gweld coch yn dda iawn!
- 3) Pan fydd y paent yn sych, tynnwch batrwm o amgylch y tyllau gan ddefnyddio'r pennau uwchfioled arbennig. Bydd y patrymau hyn yn helpu'r glöynnod byw i gael hyd i'r dŵr siwgr y tu mewn i'r tiau golff.
- 4) Nawr, ychwanegwch y tiau golff. Gwthiwch nhw trwy'r tyllau yn y cerdyn a'u gosod yn eu lle â chlai modelu neu blastisin. Nawr gallwch osod eich porthwr i orwedd ar y llawr a'i wthio i lawr gan ddefnyddio'r tiau golff i'w gadw yn ei le. Ceisiwch roi'r porthwr lle bydd y glöynnod byw yn ddiogel rhag ysglyfaethwyr, er enghraifft ymhell oddi wrth goed a llwyni lle gall cathod ac adar guddio.
- 5) Rhowch y dŵr siwgr yn y tiau golff a bydd eich porthwr yn barod. I wneud dŵr siwgr, toddwch ychydig o siwgr mewn dŵr cynnes. Peidiwch â'i wneud yn rhy felys - dylai un rhan o siwgr mewn deg rhan o ddŵr fod yn iawn.
- 6) Cofiwch gael gwared ar y porthwr yn ofalus pan fyddwch wedi gorffen ei ddefnyddio.

Gwneud porthwr glöynnod byw (2)

Porthwr potel blastig a chaead

Beth sydd ei angen arnoch

- Potel blastig a chaead
- Llinyn neu weiren gardd
- Dŵr siwgr
- Gefeiliau neu siswrn
- Hoelen fechan neu bin bawd

Beth i'w wneud

- 1) Torrwch ddarn tua 20cm o llinyn/weiren a rhoi gwddf y botel yng nghanol y llinyn/weiren. Trowch y weiren (neu clymwch y llinyn) o amgylch gwddf y botel nes bydd yn dal yn dynn. Clymwch neu trowch bennau'r llinyn/weiren i wneud dolen, fel y gallwch hongian y botel gerfydd ei gwddf.
- 2) Gan ddefnyddio'r hoelen/ pin bawd, gwnewch ddau dwll yn ofalus yng ngwaelod y botel. Ceisiwch wneud y tyllau cyn lleied ag y gallwch.
- 3) Rhowch y botel mewn powlen ac arllwys dŵr siwgr i mewn i'r botel. I wneud dŵr siwgr, toddwch ychydig o siwgr mewn dŵr cynnes. Peidiwch â'i wneud yn rhy felys – dylai un rhan o siwgr mewn deg rhan o ddŵr fod yn iawn. Rhowch y caead yn ôl ar y botel a chario'r bowlen a'r botel allan, i osgoi gwneud llanast.
- 4) Rhowch eich potel i hongian y tu allan mewn lle rydych wedi gweld glöynnod byw. Bydd y dŵr siwgr yn diferu'n araf o'r botel a bydd y glöynnod byw yn gallu yfed o'r pwll y mae'n ei wneud ar y ddaear. Ceisiwch roi'r porthwr lle bydd y glöynnod byw yn ddiogel rhag ysglyfaethwyr, er enghraifft ymhell oddi wrth goed a llwyni lle gall cathod ac adar guddio.
- 5) Cofiwch gael gwared ar y botel yn ofalus pan fydd y porthwr yn wag.

